Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Cyngor Blaenau Gwent
# **Strategaeth Trawsnewid Digidol**

2023 - 2027



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Cyd-destun Blaenau Gwent | 5 |
| Cyd-destun Cymru | 6 |
| Ein Egwyddorion | 7 |
| Ein Blaenoriaethau | 9 |
| Monitro ac Adolygu | 12 |

# Rhagair

## ‘Mae’r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn byw heddiw yn newid drwy’r amser a bydd yn parhau i wneud hynny i’r dyfodol’.

Rydym yn byw mewn oes ddigidol, lle mae defnydd technolegau digidol yn cael effaith fawr ar y ffordd yr ydym yn cysylltu gyda’n teuluoedd, cyfeillion a’r byd tu allan. Bu newid sylweddol yn ffordd yr ydym yn derbyn gwybodaeth a chael mynediad i wasanaethau.

Mae’r dewis o opsiynau digidol sydd ar gael yn rhoi cyfleoedd cyffrous i ni newid y ffordd y gwnawn bethau. O ddefnyddio ffonau symudol a dyfeisiau clyfar i’n helpu i wneud apwyntiadau ac archebu nwyddau ar-lein, i’r galluoedd cynyddol y gall deallusrwydd artiffisial ei roi i ni.

Bydd ein blaenoriaethau yn ein galluogi i wella profiad ein cwsmeriaid. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn prosiectau uchelgeisiol y gall y rhai a all ddefnyddio’r rhyngrwyd gael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau 24 awr y dydd, 365 dydd y flwyddyn. Byddwn yn gweithio’n galed i sicrhau fod Blaenau Gwent yn fan lle gall pobl gysylltu, cyfathrebu a chael mynediad cyflym ac effeithiol i’r gwasanaethau maent eu hangen.

Drwy gydweithio gyda’n partneriaid, byddwn yn cefnogi aelodau mwy bregus ein cymuned i ddefnyddio dulliau a thechnolegau digidol a all eu helpu i fod yn annibynnol, cadw’n ddiogel ac yn iach a medru cael yr help maent ei angen yn rhwyddach.

**Stephen Thomas - Arweinydd**
**Helen Cunningham - Dirprwy**

# Cyflwyniad

## Ble'r ydym ni arni nawr

Bu Blaenau Gwent yn symud ymlaen ar ei thaith trawsnewid digidol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda chyflwyno ffyrdd newydd o weithio, fechnoleg fodern a meddalwedd ar system gwmwl.

## Beth ydym ni yn ceisio ei gyflawni

Mae cwmpas y strategaeth hon yn nodi ein huchelgais i wneud trawsnewid digidol yn rhan ganolog o'n hymagwedd at ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel.

Ein nod yw bod yn rhagweithiol, croesawu cyfleoedd ar gyfer cydweithio cenedlaethol, rhanbarthol, partneriaeth a lleol i ddiwallu anghenion y gymuned yn well.

Mae pobl eisoes yn rhyngweithio'n ddigidol gyda siopau, banciau ac ysgolion ac yn gofyn am lawer o wasanaethau ar-lein. Mae cwsmeriaid modern yn disgwyl gwneud yr un peth gyda'u Cyngor lleol.

Mae gofynion a disgwyliadau cwsmeriaid a staff a chyflymder arloesedd digidol yn golygu fod angen i ni fedru delio gyda'r nifer gynyddol o geisiadau gan gwsmeriaid sydd eisiau gwasanaethau cyflymach a mwy cynhwysfawr mewn nifer cynyddol o sianeli.

Rydym yn gweithio gyda chwsmeriaid sy'n canfod eu bod wedi eu hallgau'n ddigidol a byddwn yn dysgu o'u profiadau i'w cefnogi yn well.



# Y darlun digidol ...

## ... Y DU

**23%**

o boblogaeth y Deyrn as Unedig

(12.6 miliwn o bobl)

**heb sgiliau digidol sylfaenol**

gyda

**49%** yn anabl

**60%** heb gymwysterau ffurfiol

**63%** dros 75 oed

**90%**

o swyddi yn genedlaethol angen sgiliau digidol i ryw raddau

## ... Cymru

**58%**

o oedolion Cymru yn defnyddio'r rhyngrwyd



Treuliodd defnyddwyr rhyngrwyd yng Nghymru

**21 awr**

yr wythnos ar-lein ar gyfartaledd

## Blaenau Gwent

**7.3%**

o gartrefi heb fynediad i'r rhyngrwyd

**93.5%**

o gartrefi gyda mynediad i'r rhyngrwyd â band eang cyflym iawn

# Cyd-destun Blaenau  Gwent

**Bydd y strategaeth hon yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor o fod yn ‘lle teg, agored a chroesawgar i bawb, drwy weithio gyda a dros ein cymunedau’.**

**Bydd yn helpu i gyflawni blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor:**

Cynyddu dysgu a sgiliau i’r eithaf i bawb i greu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chydnerth

Ymateb i’r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltedig

Cyngor uchelgeisiol a blaengar sy’n darparu gwasanaethau ansawdd uchel ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir

Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a chydnerth

**Mae’r strategaeth hon yn gydnaws gydag uchelgais y cynlluniau a’r strategaethau allweddol dilynol:**

- Strategaeth Cwsmeriaid
- Strategaeth Gweithlu
- Strategaeth Addysg TGCh
- Strategaeth Adfywio
- Strategaeth Ariannol Tymor Canol
- Strategaeth Comisiynu a Chaffael
- Strategaeth Fasnachol

**Mae’r strategaeth hon yn dangos ymroddiad a buddsoddiad y Cyngor i ddod yn sefydliad sydd â ffocws ar y cwsmer drwy:**

- cefnogi dysgu a datblygu sgiliau
- rhoi mynediad cyfartal i wasanaethau
- adnabod a datblygu’r dechnoleg gywir yn y ffordd gywir
- gwella cydweithio gydag eraill

Cafodd y themâu a blaenoriaethau allweddol yn y strategaeth hon eu datblygu drwy ymchwil defnyddwyr a chyswllt gyda chwsmeriaid, ymgysylltu staff, gweithdai uwch reolwyr, ymgysylltu aelodau etholedig, trafodaethau gydag awdurdodau  lleol sy’n bartneriaid a chanlyniadau.

# Cyd-destun Cymru

Bydd y strategaeth yn cyfrannu tuag at y gofynion a'r safonau a nodir yn y dilynol:

> **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
> **Strategaeth Ddigidol Cymru**
> **Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru**
> **Deddf y Gymraeg**

Tra byddwn yn cyflawni'r strategaeth hon, byddwn yn sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn yn ystyried y nodau llesiant a phum ffordd o weithio:

Integreiddio, Ymgyfraniad, Cydweithio ac Ataliad Hirdymor.

Byddwn yn sicrhau fod ein penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ystyried yr effaith gymdeithasol ac economaidd ar ein cymunedau.

Anelwyd egwyddorion a blaenoriaethau allweddol y strategaeth hon at y rhai sydd angen ac eisiau cael mynediad i'r Cyngor. Y bwriad yw adeiladu gwasanaethau ansawdd da gyda'r rhai sy'n eu defnyddio a'u darparu.

Bydd buddion ychwanegol defnyddio technoleg ddigidol ar arloesi yn cefnogi annibynniaeth a chymunedau gyda gwell cysylltiadau.

Drwy ddull dylunio sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, byddwn yn ystyrird pob elfen o broses a sut mae cwsmeriaid yn defnyddio ein gwasanaethau. Bydd cael y diwylliant ac arweinyddiaeth iawn i yrru ein huchelgais digidol yn cefnogi datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Bydd defnyddio data yn well, gwell ymgysylltu a chydweithio yn ein galluogi i uno gwasanaethau i ddileu rhwystrau rhwng sefydliadau fel y gall cwsmeriaid cael mynediad rhwydd i'r hyn maent angen.

# Ein Egwyddorio n

**Seiliwyd y Strategaeth hon ar ddwy egwyddor a thair blaenoriaeth allweddol sy'n hanfodol i wella a darparu ein gwasanaethau:**

## Egwyddor Un

**Datblygu diwylliant sy'n cefnogi gwelliant digidol a phrofiad llyfn i gwsmeriaid.**

**Nod: Sicrhau ein bod yn rhannu dealltwriaeth o'r hyn mae digidol yn ei olygu i'n sefydliad, cwsmeriaid, busnesau a dysgwyr.**

**Byddwn yn gwneud hyn drwy:**

- datblygu gweledigaeth yr ydym yn ei rhannu ar sut y bydd y Cyngor yn gwella a darparu ei wasanaethau gan ddylanwadu ar ymddygiad sy'n rhoi'r cwsmer wrth galon popeth a wnawn
- datblygu dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer at ddarparu gwasanaethau
- gweithio fel un sefydliad i ddileu muriau
- datblygu diwylliant a yrrir gan ddata i wella a dylunio gwasanaethau
- datblygu diwylliant arloesol ac entrepeneuraidd i foderneiddio y sefydliad
- cydweithio gyda phartneriaid a sefydliadau i ddylunio gwasanaethau digidol y gellir eu defnyddio ar gyfer Cymru gyfan
- datblygu diwylliant agored lle caiff gwybodaeth ei rannu a'i ailddefnyddio gan sicrhau fod mesurau diogelwch priodol yn eu lle

## Egwyddor Dau

**Gwella cydweithio i wneud y defnydd gorau o wybodaeth ac arbenigedd i greu gwasanaethau gwell.**

**Nod: Gwella sut ydym yn ymgysylltu gyda chwsmeriaid, busnesau, dysgwyr a phartneriaid i roi cyfle i adeiladu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y 21ain ganrif.**

### Gwnawn hyn drwy:

> gweithio gyda chymunedau i ddylunio gwasanaethau digidol i ddatrys problemau cymhleth
> gweithio gyda phob rhanddeiliad i ddeall problemau gyda darpariaeth gwasanaeth
> gweithio gyda phartneriaid i alinio prosiectau a chontractau i wneud y defnydd gorau o adnoddau
> adeiladu a datblygu timau aml-ddisgyblaeth i wella sgiliau a defnyddio arbenigedd
> dod yn fwy effeithiol wrth ddarparu prosiectau gan rannu gwybodaeth, perchnogaeth a dealltwriaeth
> gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws y sefydliad gyda rhanddeiliaid.

# Ein Blaenoriaet hau

## Blaenoriaeth Un – Bod â ffocws ar y cwsmer

**Nod: Llunio gwasanaethau yn seiliedig ar beth mae cwsmeriaid a busnesau ei angen drwy gymryd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.**

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy:**

> dylunio gwasanaethau digidol sydd mor dda fel bod pobl yn eu dewis
> sicrhau fod ein gwasanaethau yn hollol hygyrch ac yn cyflawni pob safon lleol a chenedlaethol
> ei gwneud yn rhwyddach canfod a deall gwybodaeth ar-lein
> ei gwneud yn haws i gysylltu a rhyngweitho gyda ni
> ei gwneud yn haws i drin gwasanaethau ar ran ffrindiau a theulu
> cynyddu nifer y gwasanaethau ar-lein sydd ar gael ar gyfer cwsmeriaid a busnesau
> sicrhau fod cwsmeriaid a busnesau yn rhannu gwybodaeth gyda ni
> parhau i adolygu  ac ail-ddylunio ein prosesau i'n gwneud yn effeithiol ac effeithlon



## Blaenoriaeth Dau – Bod yn Fwrdeistref a alluogwyd yn ddigidol

### Nod: Datblygu sgiliau digidol a data i ddarparu gwasanaethau sy'n ateb anghenion cwsmeriaid a busnesau.

### Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

> rhoi cwsmeriaid a busnesau wrth galon popeth a wnawn
> adeiladu'r sgiliau cywir sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer
> datblygu staff fel eu bod yn hyderus yn eu sgiliau digidol i'w paratoi nhw a'u sefydliad ar gyfer y 21ain ganrif
> sicrhau fod pob aelod etholedig ac uwch reolwr yn arweinwyr digidol ac yn cefnogi dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y cwsmer
> sicrhau y gallwn addasu yn gyflym i'r newid mewn anghenion a gofynion cwsmeriaid a gofynion gwasanaeth
> gwella ansawdd ein data i ddarparu gwasanaethau gwell drwy wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth
> defnyddio data a dirnadaeth i ddod yn rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol
> sicrhau y caiff pob data ei ddiogelu yn briodol
> ensuring that all data is protected appropriately
> rhannu data pan mae'n ddiogel a phriodol gwneud hynny
> ymchwilio defnydd Data Agored i helpu datrys problemau cymhleth



## Blaenoriaeth Tri - Cynyddu i'r eithaf y defnydd o'n hadnoddau a thechnoleg

### Nod: Sicrhau fod ein seilwaith technoleg a digidol yn ymateb, yn ddiogel ac yn addasu i'r newid yn anghenion cwsmeriaid, busnesau a staff.

### Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- recriwtio a chadw'r bobl gywir gyda'r sgiliau cywir ar gyfer y 21ain ganrif.
- fod gan staff yr offer cywir i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon gan alluogi staff i weithio'n ddiogel gydag unrhyw ddyfais o unrhyw le (yn amodol ar bolisi)
- gweithio gyda chymunedau a busnesau i sicrhau fod y dechnoleg gywir gennym i ddiwallu eu hanghenion
- bod â thechnoleg ddibynadwy a diogel sy'n effeithiol o ran cost ac sy'n gostwng ein ôl-troed carbon.
- datblygu ein seilwaith digidol i gefnogi darparu gwasanaethau 21ain ganrif
- deall yr angen am gynnyrch digidol yn y Cyngor
- adnabod technolegau newydd ac arloesedd i wella gwasanaethau a sut y gweithiwn
- cydweithio a rhannu cynnyrch a thechnoleg digidol yn fewnol a gyda phartneriaid
- cynnal ein systemau fel eu bod bob amser yn ddiogel a saff
- maintaining our systems so they are always safe and secure
- awtomeiddio tasgau sy'n digwydd dro ar ôl tro fel y gall ein staff



# Monitro ac Adoly gu

Bydd y Bwrdd Dylunio Gwasanaeth ac Arweinyddiaeth Ddigidol yn goruchwylio cyflenwi'r Strategaeth Trawsnewid Digidol.

Bob blwyddyn bydd gan y strategaeth set o gynlluniau cyflenwi a ddatblygwyd ar gyfer pob blaenoriaeth.

Caiff set o fesurau llwyddiant allweddol eu datblygu hefyd.

Caiff y strategaeth ei hadolygu'n flynyddol i sicrhau ein bod yn cadw golwg ar newidiadau cyfredol i arloesedd digidol, technolegau a disgwyliadau cwsmeriaid.

Mae'r strategaeth hon yn un o set o raglenni digidol/TGCh strategol a gynlluniwyd i sicrhau bod cymunedau yn parhau'n gynaliadwy yn y dyfodol a sicrhau gwell deilliannau i'n cwsmeriaid, busnesau a dysgwyr.



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
Swyddfeydd Cyffredinol
Heol Gwaith Dur
Glynebwy
NP23 6DN

**Ffôn:** 01495 311556
**Gwefan:** www.blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council